Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU

Ffôn: 01978 311198

Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrecsam
LL11 4NG

Ffôn: 01978 269580

FFEDERASIWN YSGOL PLAS COCH AC YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA (Pennaeth *Headteacher)*
mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk / mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Chwefror 21ain 2018

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Efallai eich bod wedi clywed yn y newyddion cenedlaethol a lleol dros yr wythnosau diwethaf am broblemau ariannol sy'n wynebu ysgolion ar hyn o bryd, yn benodol yn ymwneud â chyllidebau y flwyddyn ariannol nesaf, 2018-19. Yn anffodus, ar ôl blynyddoedd o gael cyllidebau cymharol iach, mae'r problemau yma yn mynd i effeithio Plas Coch a Bro Alun.

Er gwaethaf cynnydd o 1.48% i gyllidebau ysgolion gan CBSW, fel yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae yna ddiffyg sylweddol yng nghyllidebau dangosol y ddwy ysgol am 2018-19. Wrth gwrs, mae faint o arian sy'n cael ei ddyrannu i Gynghorau gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar hyn.

Yn dilyn cyfarfod efo cyfrifydd yr ysgolion dros hanner tymor, cadarnhawyd fod y diffyg yng nghyllideb Plas Coch am 2018-19 ymhell dros £100,000 a Bro Alun dros £50,000. Mae'r symiau yma yn enfawr a mae'n anodd iawn deall sut mae disgwyl i ysgolion gynnal a chodi safonau a gwella lles disgyblion os nad yden ni'n derbyn cyllidebau teg i'n galluogi i wneud hyn.

Cyn i'r corff llywodraethol fedru pasio cyllidebau 2018-19 ar gyfer y ddwy ysgol, bydd rhaid tynnu'r ddau ffigwr uchod nol i £0. Bydd hyn yn golygu gwneud toriadau ym mhob agwedd o rediad yr ysgolion gan gynnwys staffio, adnoddau, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol a gwasanethau a gynigir e.e. gwersi offerynol. Fel y gallwch ddychmygu, mae hyn yn sialens enfawr.

Mae cynlluniau drafft, un ar gyfer pob ysgol, wedi eu llunio i wneud y toriadau a byddant yn cael eu trafod cyn gynted a phosib gan is-bwyllgor cyllid y llywodraethwyr. Yn naturiol, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod y sefyllfa ariannol yn cael cyn lleied o impact a phosib ar addysg y disgyblion yn y ddwy ysgol.

Teimlaf ei bod yn bwysig eich bod fel rhieni a gwarchodwyr yn ymwybodol o'r sefyllfa uchod ac os oes unrhyw ddiweddariadau perthnasol dros yr wythnosau a misoedd nesaf, byddaf yn sicrhau eich bod ymwybodol ohonynt.

Diolch yn fawr,

Osian Jones